

Fforwm Pensiynwyr Cymru

Fforwm cenedlaethol pobl hŷn yw Fforwm Pensiynwyr Cymru sy'n cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau pensiynwyr amrywiol ac aelodau wedi ymddeol o undebau llafur.

► Maniffesto

Amcanion Fforwm Pensiynwyr Cymru yw:

- Cydweithio er budd holl bensiynwyr Cymru
- Ychwanegu cydraddoldeb, urddas a pharch at fynd yn hŷn a gwella ansawdd yn hwyrach ymlaen ym mywydau pobl

Ffeithiau Allweddol:



- Mae oddeutu 88,000 o bobl dros 65 oed yng Nghymru'n dibynnu ar bensiwn y wladwriaeth a budd-daliadau'r wladwriaeth, heb gael unrhyw ffynhonnell arall o incwm.¹
- Rhagwelir y bydd nifer y bobl dros 65 oed yng Nghymru yn cynyddu 50%, neu 292,000 o bobl, rhwng 2012 a 2037.²
- Ar gyfartaledd, mae biliau ynni cartref wedi cynyddu £800, neu oddeutu 151%, rhwng 2004 a 2012.³

Cyfeirnodau:

- 1 The Pensioners' Incomes Series 2012/13, Adran Gwaith a Phensiynau, 2014
- 2 Rhagolygon Poblogaeth Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru, 2013
- 3 USwitch <http://www.uswitch.com/gas-electricity/guides/gas-electricity-prices/> (4 Awst 2014)

Ein Galwadau Allweddol:

Pensiwn y Wladwriaeth derbyniol i bensiynwyr cyfredol.

Yn y dyfodol, rhaid i lefel newydd pensiwn y wladwriaeth gynnwys pob pensiynwr cyfredol a chyd-fynd â chwyddiant. Bydd hynny'n gwarchod pobl o dlodi ac yn darparu incwm sy'n sicrhau dewis, cyfle ac ansawdd bywyd, heb ddibyniaeth ar fudd-daliadau.

Diwedd i bob prawf modd.

Mae profion modd yn gostus ac yn ddiraddiol, mae'n gwahaniaethu yn erbyn pobl sydd â phensiynau galwedigaethol a'r rheiny sydd wedi cynilo arian trwy gydol eu bywydau.

Diwedd tlodi ynni.

Ni fydd hyn byth yn digwydd tra bod elw yn fwy pwysig na phobl. Mae angen mynediad ar bobl hŷn at ynni fforddiadwy i'w galluogi nhw i fyw yn gyfforddus. Dylid ystyried incwm sefydlog a chyfyngedig pobl hŷn, eu hanghenion iechyd a faint o amser maen nhw'n treulio yn eu cartrefi. Dylai mwy o wybodaeth fod ar gael ynghylch insiwleiddio.

Gweithredu pellach i ddod â phob math o wahaniaethu i ben.

Ni roddir yr un statws i Wahaniaethu ar Sail Oed o gymharu â mathau eraill o wahaniaethu. Mae yna ormod o enghreifftiau o'r canlynol yn dal i gael eu tynnu at ein sylw:

- Gwahaniaethu gan wasanaethau ariannol, e.e. dim mynediad at forgeisi, hyd yn oed rhai cyfyngedig.
- Diffyg dewis ac ansawdd o ran nwyddau a gwasanaethau.
- Triniaeth anghyfartal wrth geisio cael mynediad at wasanaethau iechyd a chymdeithasol, e.e. agweddau nawddoglyd gan y proffesiwn meddygol.
- Y ffordd mae'r cyfryngau yn cynrychioli pobl hŷn mewn ffordd negyddol.

Gwybodaeth a chynghor o ansawdd da yn cael eu cynhyrchu mewn ffordd sy'n hawdd i'w deall.

Mae angen gwella hwn yn gyflym er mwyn galluogi pobl i fod yn fwy hyddysg o ran materion sy'n effeithio arny'n nhw. Mae angen dileu biwrocratiaeth a darparu ffurflenni a gwybodaeth mewn iaith blaen, bob dydd. Dylai gwasanaethau ffôn a phapur fod ar gael ar bob adeg, yn ogystal â gwasanaethau ar-lein.

Cadw'r GIG fel y dychmygwyd y gwasanaeth o'r cychwyn: am ddim yn y man darparu.

Sicrhau bod urddas pobl hŷn a dangos parch iddynt yn ganolog i bob gwasanaeth gofal.

- Dylai urddas fod yn arferol a ni ddylid goddef unrhyw fath o gam-drin. Dylai urddas gynnwys parch o ran preifatrwydd, cymorth i fwyta, yfed a defnyddio'r toiled, gwasanaethau eirioli annibynnol mewn ysbytai, a'r dewis o gael gwryw neu fenyw i helpu gyda gofal.
- Dylai pob aelod staff gael eu hyfforddi at safon y GIG a'u monitro yn rheolaidd. Rhaid recriwtio digon o staff sy'n rhugl yn y Gymraeg mewn ardaloedd Cymraeg, er mwyn gofalu am bobl hŷn sy'n siarad Cymraeg fel iaith gyntaf.
- Rhaid ymgynghori â phobl hŷn ynghylch penderfyniadau.

Gweithredu cadarnhaol i helpu pobl hŷn i fyw bywydau hir ac egniol trwy hyrwyddo bywydau iachus a dysgu gydol oes trwy ganolfannau hamdden, llyfrgelloedd a chanolfannau addysg i oedolion.

Gwell gwasanaethau trafndiaeth integredig a hygyrch ym mhob ardal.

Estyn y cynllun tocyn teithio ar fws rhad ac am ddim i gynnwys trafndiaeth gyhoeddus a chymunedol cenedlaethol rhad ac am ddim. Rhaid bod rhyw fath o drafnidiaeth gyhoeddus ar gael am ddim ym mhob ardal a rhaid darparu gwell cymhorthdal i gefnogi gwasanaethau sy'n anymarferol yn ariannol gyda'r nos a dros y penwythnos.

Cynnydd o ran argaeledd tai fforddiadwy ac addas.

Ni fydd hyn byth yn digwydd heb reoli rhenti a chymorth i bobl hŷn i symud i dai o lai os dymunant wneud. Dylai pob person hŷn allu byw mewn llety diogel a chyfforddus. Rhaid darparu cymorth ariannol i addasu cartrefi perchnogion tai a thenantiaid hŷn.

Mynediad at wasanaethau cymunedol lleol, swyddfeydd post, siopau, gwasanaethau iechyd a mannau i gymdeithasu er mwyn sicrhau bod cymunedau lleol yn parhau i ffynnu.

Mae angen i agweddau pobl symud tuag at gydlynid cymunedol a natur gymdogol, yn debyg i genedlaethau'r gorffennol. Rhaid i swyddfeydd post fod yn fwy addas i'r diben, cyflogi mwy o staff a gostwng costau postio, sy'n llawer rhy gymhleth ac afresymol erbyn hyn. Mae angen i bobl hŷn allu dewis os dymunant fod yn rhan o'r chwyldro digidol; a dylai hyfforddiant fod ar gael i bawb sy'n dymuno cymryd rhan.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

Fforwm Pensiynwyr Cymru, Tŷ John Pathy, 13/14 Cwrt Neifion, Heol Blaen y Gad, Caerdydd CF24 5PJ
Ffôn: 029 2043 1555 • E-bost: pfw@agecymru.org.uk